

## Adeiladwch eich palas prydfarth eich hun!

Mae hwn yn weithgaredd gwych i oedolion a phlant! Gall 'Gwestyau Pryfed' fod bob ffurf a siâp. Gallwch fynd am un mawr a defnyddio pren paledi un ar ben y llall fel eich ffrâm, neu gallwch ddefnyddio cynhwysydd bychan fel blwch pren bach neu botel blastg gyda'r pen wedi ei dorri i ffwrdd – mae fyny i chi. Bydd hyn o fudd i bob math o greaduriaid, o wenynd unigol i adain siderog. Does dim dull cywir nac anghywir i greu gwesty pryfed felly ewch ati, byddwch yn greadigol a mwynhewch.

Ceisiwch gynnwys rhai o'r nodweddion canlynol ynddo:

- Bonion planhigion gwag y tu mewn e.e. ffyn bambŵ
- Ffyn a brigau
- Gwellt
- Boncyffion (gyda'r rhisgl amdanynt) gyda thyllau o feintiau gwahanol wedi eu drilio i'r pennau. Gwnewch yn saff eu bod i gyd dros 90mm o ddyfnder
- Cardfwrdd crychlyd wedi ei rollo i gynhwysydd sy'n cadw dŵr draw
- Tywod
- Brics a cherrig (cyfan ac wedi malu)

Gallwch greu gwesty moethus drwy adael lle gwag i Ddraenogod a Brogaod ar waelod eich gwesty prydfarth a thrwy ychwanegu tô gwyrdd uwch ben – orchuddio'r top â deunydd sach neu debyg, gyda rhywfaint o dyllau yn yr ochr ar gyfer draenio dŵr na fydd yn gollwng i'r gwesty, rhwch gompost drosto ac yna ei hadu â chymysgedd o flodau gwylltion.



Mae cywion yn debygol o fod mewn nythod am y fisoedd nesaf, felly gadewch gloddiau a choed heb eu torri i roi mwy o amddiffynfa iddynt.



Planhigion sy'n blodeuo ym mis Mai

Troed Yr Iâr  
Y Goesgoch  
Ytbys Y Ddôl



Lacewing

## Hela ymlusgiaid

Awgrymiadau arolwg: Chwiliwch byllau gyda'r nos â fflachlamp gry i weld Madfallod Dŵr, Brogaod a Llyffantod yn caru a dodwy wyau. Rhwch ddarnau o fetal neu fatiau rwbwr allan mewn gwair hir ac edrychwch arnynt – ac oddi tanynt ar foreau cynnes i weld os oes ymlusgiaid yno.



Broga



Llyffant Dafadennog



Neidr Ddefaid



Madfall



Neidr y Gwair



Madfall Ddŵr Gribog



Madfall Ddŵr Gyffredin

Unrhyw ymlusgiaid eraill:

